# Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol 2025

## Trosolwg

Mae Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol 2025 yn darparu cymhelliant ariannol ar gyfer myfyrwyr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) sy'n uniaethu fel unigolyn ethnig lleiafrifol o grŵp ethnig lleiafrifol penodol, ac yn datgan hynny, ac sy'n cychwyn rhaglen AGA ôl-raddedig ym mis Medi 2025.

## Y cefndir

1. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gynnig cymorth ariannol o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 ar gyfer:
    a. hybu recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu;
    b. darparu ar gyfer cynhaliaeth person tra bydd yn ymgymryd â chwrs o'r fath;
    c. talu neu ddarparu buddion eraill i athrawon neu staff nad ydynt yn athrawon.

2. Gwneir y Cynllun Cymhelliant Addysg Gychwynnol i Athrawon o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol ("y Cynllun") wrth arfer y pwerau hynny.

3. Daw'r Cynllun hwn i rym ar 1 Medi 2025 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

4. Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau anstatudol ar y Cynllun hwn o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 i gynorthwyo myfyrwyr, a darparwyr rhaglenni cymwys. Gellir dod o hyd i'r canllawiau yma: https://www.llyw.cymru/cynllun-cymhelliant-addysg-gychwynnol-i-athrawon-aga-ar-gyfer-rhai-o-gymunedau-ethnig-lleiafrifol

5. Mae'r ddogfen hon yn ceisio nodi amlinelliad byr o sut y bydd y Cynllun hwn yn gweithredu, a dibenion talu'r grant cymhelliant.

## Crynodeb o'r Cynllun

6. Mae'r Cynllun hwn yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru dalu grantiau cymhelliant i unigolion cymwys sy'n uniaethu fel pobl Ddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol (gweler paragraff 10(c)).

7. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu nifer y rhandaliadau a phryd y telir rhandaliadau i unigolion cymwys. Bydd y taliadau fel arfer yn cael eu rhannu'n ddau randaliad. Gellir hawlio'r rhandaliad cyntaf ar ôl i'r person cymwys ennill statws athro cymwysedig (rhandaliad SAC), a'r ail pan fydd y person wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol (rhandaliad terfynol) mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru a dim ond y rhai a gafodd y rhandaliad SAC fydd yn gallu ei hawlio. Mae penderfyniad Gweinidogion Cymru ynghylch a fydd unrhyw daliad o dan y cynllun hwn yn cael ei wneud i unrhyw unigolyn cymwys yn derfynol.

## Dehongli

8. Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y Cynllun hwn:

ystyr "rhaglen gymwys" (*"eligible programme"*) yw rhaglen sydd:
yn rhaglen addysg gychwynnol athrawon ôl-raddedig amser llawn neu ran-amser sy'n arwain at statws athro cymwysedig sy'n cael ei achredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg, a sefydlwyd yn unol â rheoliad 5 Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017;

ystyr "myfyriwr cymwys*"* ("*eligible student*") yw myfyriwr â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae'r rheoliadau hynny yn gymwys i'r cwrs hwnnw[1];

ystyr "cyflogedig" ("*employed*") yw wedi'i gyflogi o dan gontract cyflogaeth neu wedi'i gyflogi i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd arall heblaw o dan gontract cyflogaeth a dylid dehongli "cyflogaeth" ("employment") yn unol â hynny;

ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" ("*employment-based teacher training scheme*") yw cynllun a wneir o dan reoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 neu o dan unrhyw gynllun diwygiedig neu gynllun newydd a gyflwynwyd;

mae i "statws athro cymwysedig" ("SAC") ("*qualified teacher status*") yr ystyr a roddir i unigolyn sy'n athro cymwys gan adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002: sef "a person who satisfies requirements specified in regulations"[2] a wneir o dan yr adran honno.

## Grantiau cymhelliant

9. Caiff Gweinidogion Cymru, yn ôl eu disgresiwn absoliwt, dalu grantiau ("grantiau cymhelliant") ar ffurf cymhellion i unigolion sy'n bodloni gofynion paragraffau 11, 12 a 13, yn ddarostyngedig i baragraff 10.

10. Mae'r grantiau a roddir o dan y Cynllun hwn yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir ym mharagraffau 155 i 20.

## Pwy sy'n gymwys i gael grantiau cymhelliant?

11. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant cymhelliant, rhaid i'r unigolyn:

(a) fod wedi dilyn rhaglen gymwys yng Nghymru a ddechreuodd ar neu ar ôl 1 Medi 2025 ond cyn 31 Awst 2026;

(b) fod yn fyfyriwr cymwys;

---

[1] Y Rheoliadau sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i ddarparu cymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n ymestyn o 1 Medi 2024 i 31 Awst 2025 yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 (O.S. 2018 Rhif 191 (Cy. 42)). Bydd y Rheoliadau hyn mewn grym am y flwyddyn academaidd 2025/26.

[2] Y Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (O.S. 2012/724 (Cy. 96)).

(c) uniaethu fel myfyriwr ethnig lleiafrifol o dan un o'r grwpiau ethnig canlynol, a datgan hynny i'w Partneriaeth AGA (darparwr rhaglen gymwys):

i. Asiaidd
   a. Bangladeshaidd neu Brydeinig Bangladeshaidd
   b. Tsieinïaidd neu Brydeinig Tsieinïaidd
   c. Indiaidd neu Brydeinig Indiaidd
   d. Pacistanaidd neu Brydeinig Pacistanaidd
   e. Unrhyw gefndir Asiaidd arall

ii. Du, Du Prydeinig
   a. Caribïaidd neu Affricanaidd
   b. Affricanaidd neu Brydeinig Affricanaidd
   c. Caribïaidd neu Brydeinig Caribïaidd
   d. Unrhyw gefndir Du arall

iii. Grwpiau ethnig cymysg neu luosog
   a. Gwyn neu Wyn Prydeinig ac Asiaidd neu Brydeinig Asiaidd
   b. Gwyn neu Wyn Prydeinig a Du Affricanaidd neu Ddu Affricanaidd Prydeinig
   c. Gwyn neu Wyn Prydeinig a Du Caribïaidd neu Ddu Caribïaidd Prydeinig
   d. Unrhyw gefndir ethnig cymysg neu luosog arall

iv. Gwyn
   a. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
   b. Roma
   c. Iddewig

v. Grŵp ethnig arall
   a. Arabaidd
   b. Cwrdaidd

(d) beidio â bod yn athro cymwys eisoes ar ddechrau astudiaeth tuag at statws athro cymwysedig;

(e) ar ddechrau astudiaeth tuag at statws athro cymwysedig, beidio â bod wedi ei gyflogi i addysgu mewn ysgol neu sefydliad arall fel athro neu athrawes;

(f) peidio â bod yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a drefnwyd o dan unrhyw gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth.

12. I fod yn gymwys i gael rhandaliad **SAC** grant cymhelliant, ar ôl cwblhau rhaglen AGA, sy'n cynnwys dyfarnu SAC i fyfyriwr, rhaid i fyfyriwr:

I. fodloni'r gofynion cymhwystra

II. fod wedi cwblhau rhaglen gymwys yn llwyddiannus ac ennill Statws Athro Cymwysedig yn unol â Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012

13. I fod yn gymwys i gael rhandaliad **terfynol** grant cymhelliant, ar ôl cwblhau cyfnod sefydlu, rhaid i athrawon newydd gymhwyso:

   I. fod wedi bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer y grant a bod wedi cael y rhandaliad SAC ar ôl dyfarnu SAC

   II. bod wedi cwblhau cyfnod sefydlu'n llwyddiannus o fewn tair blynedd ar ôl ennill SAC mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, ac fel arall yn unol â Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol (Cymru) 2015.

14. Mae unigolion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun cymhelliant hwn hefyd yn gymwys i hawlio cymhellion eraill ar gyfer hyfforddiant athrawon[5] ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cynlluniau hynny yn y flwyddyn academaidd berthnasol.

## Amodau

15. Ni thelir grant i unigolyn oni fydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru ar unrhyw ffurf, ar unrhyw adeg a chan gynnwys unrhyw fanylion y bydd Gweinidogion Cymru yn eu pennu.

16. Caiff Gweinidogion Cymru yn ôl eu disgresiwn beidio â thalu grant cymhelliant i unigolion a gafodd eu derbyn ar raglen gymwys wedi i'r cwrs hwnnw gyrraedd y targed derbyn ar ei gyfer (fel y nodwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg).

17. Ni fydd unigolyn sy'n gymwys i gael grant cymhelliant ac sy'n ymuno â rhaglen gymwys, ond sy'n gadael ei raglen cyn ei chwblhau, neu sy'n methu â chael SAC neu gwblhau cyfnod sefydlu cyflawn yn foddhaol, fel y bo'n berthnasol, yn gymwys i gael unrhyw randaliadau grant pellach ar ben y rhai a dalwyd eisoes i'r unigolyn, yn unol ag unrhyw ganllawiau a rhaglen daliadau a lunnir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.

18. Bydd grantiau cymhelliant (boed yn rhandaliad SAC neu'n rhandaliad terfynol) a all fod yn ddyledus i unigolion cymwys a ddechreuodd raglen gymwys mewn un flwyddyn academaidd ond yna, yn dilyn gohirio, yn ailddechrau'r rhaglen yn y flwyddyn academaidd nesaf, yn parhau i gael eu talu ar y gyfradd grant cymhelliant berthnasol (os oes un) o dan y cynllun a oedd yn gymwys yn y flwyddyn academaidd y dechreuodd eu hastudiaethau yn wreiddiol oni fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu'n wahanol yn ôl eu disgresiwn, yn ysgrifenedig.

19. Gellir cadw'n ôl daliadau sy'n ddyledus i fyfyrwyr cymwys sy'n tynnu'n ôl o raglen AGA gymwys, sydd ddim yn ennill SAC neu sy'n methu dechrau neu gwblhau cyfnod sefydlu, yn unol ag unrhyw ganllawiau ac amserlen daliadau a gaiff eu llunio gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.

20. Caiff Gweinidogion Cymru fynnu bod unrhyw grant a dalwyd yn cael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol:-

[5] Mae'r cymhellion Addysg Gychwynnol i Athrawon sydd ar gael ar hyn o bryd i'w gweld yma: https://llyw.cymru/bod-yn-athro

a) os yw’r derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o grant cymhelliant, yn methu â bodloni unrhyw feini prawf cymhwystra a nodir yn y cynllun hwn mewn perthynas â rhandaliad dilynol;
b) os yw’r derbynnydd, yn ei gais am grant neu mewn cysylltiad â’r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth ffug neu wybodaeth sy’n gamarweiniol mewn ffordd berthnasol;
c) os bydd tystiolaeth nad oedd derbynnydd y grant erioed yn bwriadu cwblhau ei raglen gymwys neu, ar ôl ei chwblhau, fynd i addysgu.

## Talu'r grant

21. Gellir talu grantiau cymhelliant mewn rhandaliad o unrhyw swm ac ar unrhyw adeg a bennir gan Weinidogion Cymru.


22. Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cyllid i sefydliad sy’n darparu rhaglen gymwys ar unrhyw adeg y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu er mwyn talu person cymwys ar raglen gymwys.

23. Bydd Gweinidogion Cymru yn darparu cyllid, ar unrhyw adeg y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud hynny, i dalu unigolyn cymwys. Rhaid i’r adegau hynny fod ar ôl i'r unigolyn cymwys gwblhau cyfnod sefydlu'n llwyddiannus.

## Gweinyddu

24. Caiff Gweinidogion Cymru wneud taliad i sefydliadau sy'n darparu rhaglenni cymwys sy'n cael cyllid grant cymhelliant i gydnabod y costau gweinyddol a chostau cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â gwneud y taliadau hynny. Bydd angen i’r sefydliadau, fel rhan o’r taliad hwnnw, dalu sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (y cyfeirir atynt ym mharagraff 4).

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru



Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dyddiad:11/11/2024